Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Rhyd-Y-Grug

Aberfan
Merthyr Tudful
CF48 4NT

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Rhyd-Y-Grug

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Gymraeg Rhyd-Y-Grug |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Ysgol Gynradd Gymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 286 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 219 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 33 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 13.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 15.5% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 26.9% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 03/01/2022 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw’n berthnasol) | 19/01/2017 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 09/06/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Rhyd y Grug yn gymuned gynhwysol sy’n rhoi pwyslais ar les y disgyblion mewn amgylchedd croesawgar a chyfeillgar. Mae’r disgyblion wrth eu bodd yn dod i’r ysgol ac yn dangos brwdfrydedd tuag at eu dysgu. Mae natur ofalgar y staff yn creu hafan ddiogel i’r disgyblion ac maent yn gwybod y gallant droi at unrhyw un os ydynt yn teimlo’n bryderus. Mae gan y disgyblion barch mawr tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ac mae hi wedi sefydlu ethos cynhyrchiol a thîm agos o staff ymroddedig. Mae’n arweinydd effeithiol sy’n uchel ei pharch gan yr holl randdeiliaid. Mae gan yr ysgol systemau gwella ysgol trylwyr sy’n datblygu’r ysgol ymhellach ac mae’r cyfleoedd dysgu proffesiynol niferus yn cael effaith gadarnhaol ar les a dysgu disgyblion. Mae’r llywodraethwyr yn gefnogol iawn o’r ysgol ac yn dangos ymwybyddiaeth dda o’u rolau a’u cyfrifoldebau.

Mae athrawon yn paratoi ac yn cyflwyno ystod o dasgau sy’n datblygu medrau llafar ac ysgrifennu Cymraeg a Saesneg, rhifedd a digidol y disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, maent yn gwneud cynnydd da ac yn defnyddio a chymhwyso eu medrau yn effeithiol ar draws meysydd dysgu. Er hyn, nid yw medrau darllen Cymraeg y disgyblion yn datblygu cystal.

Mae’r staff yn creu amgylchedd ysgogol a deniadol tu fewn a thu allan i’r dosbarth i sbarduno diddordeb y disgyblion yn eu gwaith. Maent yn cynllunio cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion i gyfrannu tuag at beth yr hoffent ei ddysgu ac, yn fwy diweddar, cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion wella eu gwaith eu hunain. Fodd bynnag, mae disgwyliadau athrawon o beth gall ddisgyblion ei gyflawni yn eu gwaith yn anghyson ar draws yr ysgol. Mae’r staff yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu medrau personol, cymdeithasol a chreadigol buddiol iawn. O ganlyniad, mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth gadarn o hanes a diwylliant eu milltir sgwâr, y gymuned ehangach a Chymru.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1 Gwella medrau darllen Cymraeg disgyblion

A2 Sicrhau disgwyliadau uchel yn gyson gan staff i gefnogi pob disgybl i gyflawni hyd orau eu gallu

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae'r pennaeth, arweinwyr, a'r holl staff yn cydweithio'n effeithiol i greu cymuned hapus a theuluol ac yn darparu addysg a gofal buddiol ar gyfer ei disgyblion. Maent yn gweithio fel tîm i weithredu eu rolau a chyfrifoldebau yn effeithiol.

Mae'r pennaeth yn fodel rôl arbennig sy'n cael ei pharchu a'i gwerthfawrogi gan holl randdeiliaid yr ysgol. Mae ei gweledigaeth a'i hangerdd tuag at sicrhau lles, addysg a phrofiadau gorau posibl i bob disgybl yn gryfder. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ohoni hi ei hun a'r staff sydd, yn ei dro, yn datblygu agweddau cadarnhaol disgyblion at eu dysgu. O ganlyniad, mae ymddygiad ac ymrwymiad y rhan fwyaf o ddisgyblion tuag at eu gwaith yn gryfder.

Mae'r llywodraethwyr yn chwarae rhan bwysig yn natblygiad yr ysgol. Maent yn gefnogol, yn adnabod yr ardal maent yn ei gwasanaethu yn dda, ac yn gweithio'n frwdfrydig i sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle gorau. Maent yn herio'r arweinwyr ar agweddau o'r ddarpariaeth a'r sefyllfa gyllidol yn fwriadus.

Mae arweinwyr wedi sefydlu prosesau hunanwerthuso llwyddiannus ac, ynghyd â chyfraniad gwybodus y llywodraethwyr, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ansawdd y ddarpariaeth a chyflawniad y disgyblion. Maent yn gwerthuso cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu yn effeithiol. Er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi arwain ar welliannau ym medrau cymhwyso rhifedd y disgyblion.

Mae arweinwyr yn gweithredu diwylliant o ddatblygu a chefnogi dysgu proffesiynol bwriadus staff. Maent yn rhannu syniadau a mabwysiadu arferion newydd ar y cyd yn bwrpasol ac mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ethos dysgu'r ysgol. Mae arweinwyr yn cefnogi staff i fyfyrio ac ystyried effaith y dysgu proffesiynol ar les a chynnydd y disgyblion.

Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd helaeth i ddisgyblion  gydweithio a rhannu syniadau yn aml i ddatblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol drwy ddulliau ymarferol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn caffael medrau rhifedd cadarn ac yn eu defnyddio'n rheolaidd mewn meysydd eraill o'u dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau digidol yn gynyddol ac yn eu cymhwyso'n effeithiol i gefnogi a chyflwyno eu gwaith. Mae llythrennedd yn cael ei feithrin yn bwrpasol ar draws y cwricwlwm, ac erbyn brig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu cadarn mewn ystod o ffurfiau. Yn ddiweddar, mae llawer o ddisgyblion wedi dechrau gwella'u gwaith yn fedrus sy'n arwain at waith gorffenedig o safon dda yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais priodol ar ddatblygu'r Gymraeg ac mae brwdfrydedd y staff yn amlwg wrth iddynt annog y disgyblion i siarad Cymraeg o oed cynnar iawn. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith, sy'n cynyddu wrth iddynt

aeddfedu a gwella eu medrau llafar. O ganlyniad, pan gyrhaeddant frig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn hyderus i gyfathrebu yn y ddwy iaith. Yn ogystal, mae arweinwyr yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol fel mynychu boreau coffi i siarad Cymraeg gyda thrigolion y gymuned. Fodd bynnag, er bod darpariaeth gadarn gan yr ysgol i ddatblygu medrau darllen cynnar y disgyblion yn Gymraeg, nid yw eu medrau darllen yn datblygu'n ddigon effeithiol i ddarllen yn rhugl ac i ddeall y testun.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm eang, cyfoethog a chyfoes sydd wedi'i ymwreiddio'n dda yn y gweithgareddau dyddiol. Maent yn sicrhau bod cysylltiadau cyfoethog â'r gymuned leol ac mae dysgu am eu cynefin yn rhan annatod o'r ddarpariaeth sy'n dyfnhau ymdeimlad y disgyblion o berthyn. Yn ogystal, mae'r cyfleoedd i drafod materion pwysig fel perthnasoedd ac amrywiaeth ac agweddau ysbrydol a moesol yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion tuag at hunaniaeth yn gadarn. O ganlyniad, mae gan y disgyblion agwedd aeddfed tuag at fywyd a dangosant barch amlwg tuag at ei gilydd ac eraill.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac mae'r perthnasoedd gwaith rhwng y staff a'r disgyblion yn dda. O oed cynnar, mae'r disgyblion yn cydweithio'n effeithiol â'u cyfoedion ac maent yn gwrando'n ofalus ar ei gilydd ac ar yr athrawon. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn cyfrannu'n fwriadus at drafodaethau dosbarth.

Mae athrawon yn defnyddio dulliau addysgu amrywiol yn effeithiol i adeiladu ar ddysgu blaenorol y disgyblion ac i ymestyn eu gwybodaeth a dyfnhau eu dealltwriaeth o themâu gwahanol. Maent yn cynllunio gweithgareddau creadigol ac ysgogol sy'n cysylltu profiadau dysgu a bywydau'r disgyblion yn grefftus. Yn ogystal, mae'r athrawon yn defnyddio profiadau awyr agored, gan gynnwys y goedwig, yn gynhyrchiol i ddatblygu medrau corfforol, cymdeithasol ac emosiynol y disgyblion. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu medrau cydweithio ac mae'n datblygu gwydnwch personol tu fewn a thu hwnt i'r dosbarth. Mae esboniadau clir a rhediad pwrpasol i ran fwyaf o'r sesiynau dysgu. Er hyn, mae anghysondebau yn nisgwyliadau y staff, sy'n golygu nad ydynt bob tro'n darparu gweithgareddau digon heriol i alluogi disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu yn gyson.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi ac anfantais, yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag ADY yn cael ei chydlynu'n effeithiol ac yn ymateb i anghenion y disgyblion yn dda. Mae'r staff yn datblygu perthynas gynhyrchiol â'r rhieni ac yn cynnig cefnogaeth fuddiol ar eu cyfer, er enghraifft er mwyn gwella presenoldeb eu plant. Mae'r ysgol yn defnyddio'r holl wybodaeth a chysylltiadau buddiol ag asiantaethau allanol i sicrhau bod y disgyblion yn cael y gefnogaeth orau bosibl tu fewn a thu hwnt i'r ysgol.

Mae’r pennaeth yn meithrin perthynas effeithiol â rhieni, ac yn rhannu gwybodaeth berthnasol am newyddion a digwyddiadau’r ysgol yn amserol. Gwneir ymdrech pwrpasol i gael barn rhieni am weithgarwch yr ysgol ac mae sicrhau perthynas waith gynhyrchiol â rhieni yn rhan bwysig o ethos yr ysgol. Yn ogystal, mae’r ysgol yn cynnig nifer o weithdai gyda rhieni i gefnogi lles a dysgu eu plant. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn hapus wrth iddynt ymgartrefu’n  gyflym, ac maent yn barod i ddysgu o oed cynnar iawn. Mae gan yr ysgol gysylltiadau cynhyrchiol âa’r gymuned ehangach sy’n cyfoethogi gwybodaeth y disgyblion yn llwyddiannus am gadw’n iach a heini ac i godi eu dyhead am fyd gwaith.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  11/08/2025